

**Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Mehefin 15fed
2022 am 7.30 o'r gloch.
Minutes of Llanddona Community Council monthly meeting held on 15th June 2022
7.30pm**

Presennol/Present - Is-gadeirydd Mark Griffiths, Barbara Williams, Harri Owen, Tony Jones, Gwennan Hughes a Geraint Parry (Clerc/Clerk)
Cynghorwyr Sir/County Councillors – Alun Roberts

- 1. Ymddiheuriadau/Apologies** - Rhian Hughes, Maldwyn Williams, Carwyn Jones a Gary Pritchard.
- 2. Cofnodion/Minutes** - Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11fed o Mai fel rhai cywir gan Harri Owen, eiliwyd gan Tony Jones / *Minutes of the previous meeting held on 11th May were accepted as accurate by Harri Owen, seconded by Tony Jones.*
- 3. Datgan diddordeb rhagfarnol / Declaration of prejudicial interest**
Dim diddordeb i ddatgan / *No declaration of interest*
- 4. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**
 - 4.1 Arwydd Eglwys Llanfihangel - Mae'r arwydd wedi'i godi'n derfynol. Nodwyd bod yr arwydd ar gyfer Llanddona wedi'i ddileu / *Llanfihangel Church sign - The sign has finally been erected. It was noted that the sign for Llanddona has been removed.*
 - 4.2 Mainc ar gyfer y Fynwent Gymunedol - esboniodd y Clerc bod y fainc wedi ei osod / *Bench for the Community Cemetery - the Clerk explained that the bench has been fitted.*
 - 4.3 Tipio anghyfreithlon ar y tir comin ger mast yr Heddlu – esboniodd y Clerc bod y gwastraff yno o hyd. Cytunwyd i roi gwybod i'r Swyddog Gorfodi am hyn. / *The Clerk explained that the waste is still there. It was agreed to report this to the Enforcement Officer.*
 - 4.4 Difrod diweddar i dir comin y Rhos - ni dderbyniwyd unrhyw ad-daliad hyd yma. Y Clerc i drafod gyda'r adran Priffyrdd / *Recent damage to common land Rhos - no recompense has been received to date.*
- 5.0 Adrodd gan y Cynghorwyr Sir / Report by County Councillors**
 - 5.1 Esboniodd Cyng. A Roberts fod cyfarfod cyntaf y pwyllgor cynllunio wedi'i gynnal yn dilyn yr Etholiad. Esboniodd ymhellach fod cais Tan Rallt wedi cael ei alw i mewn i'r pwyllgor / *Clr. A Roberts explained that the first planning committee meeting has taken place following the Election. He further explained that the Tan Rallt application has been called in to committee.*
 - 5.2 Mae trafodaethau ar y gweill ynghylch yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol / *Discussions are underway regarding the review of the Local Development Plan*
 - 5.3 Mae 3 Chynghorydd Ward Seiriol bellach yn rhan o Bwyllgor Gwaith y Cyngor Sir / *The 3 Councillors of the Seiriol Ward now form part of Executive Committee of the County Council*
 - 5.4 Mae ESTYN newydd gynnal arolwg manwl o'r Gwasanaeth Addysg / *ESTYN have just carried a detailed survey of the Education Service*
- 6.0 Seddi Gwag / Vacant Seats**
 - 6.1 Yn dilyn hysbysiad ar gyfer Cyfethol, derbyniwyd dau fynegiant o ddiddordeb. Yn dilyn ystyriaeth, derbyniwyd y ddau ymgeisydd yn unfrydol - sef Gwennan Hughes a Harri Owen. Edrychwn yn awr i lenwi'r seddi gwag mor fuan â phosibl / *Following notice for Co-Option, two expression of interest were received. Following deliberation both*

candidates were unanimously accepted - namely Gwennan Hughes and Harri Owen. We now look to fill the vacant seats as soon as possible.

7.0 Cofeb / Memorial – Capel Peniel

- 7.1 *Y Clerc i gael gwerth y gofeb gan yr Henaduriaeth fel y gellir ei hychwanegu at ein hyswiriant a gofyn am drosglwyddo'r tir / The Clerk to obtain a value of the monument from the Presbytery Committee so that it can be added to our Insurance cover and ask for the transfer of the land.*
- 7.2 *Cytunwyd yn unfrydol i ofyn am rodd gan yr Henaduriaeth tuag at y Gymuned / It was unanimously agreed to request a donation from the Presbytery towards the Community.*

8.0 Traeth / Beach

- 8.1 *Dywedodd Cyng. A Roberts ei fod yn falch o'r ffordd yr aeth y cyfarfod gyda'r tîrfeddianwyr y Traeth ar 06/06/22 a'r pwyntiau o egwyddorion a'r camau nesaf a awgrymwyd gan y Cyngor Sir. Nid ydi'r ddeddf gyda'r faniau gweryllu digon cryf / Clr. A Roberts stated that he was pleased with the way the meeting with the landowners of the beach went on the 06/06/22 and the points of principles and the next steps suggested by the County Council. The act with the camper vans is not strong enough.*
- 8.2 *Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r tir cofrestredig / Discussion took place regarding the registered land.*
- 8.3 *Derbyniwyd cwyn ynglŷn â rasio bygis traeth. Ystyriwyd bod hyn wedi digwydd ym mhen Pentraeth o'r traeth / A complaint was received regarding the racing of beach buggies. This was considered to have taken place at the Pentraeth end of the beach*
- 8.4 *Trafodwyd hefyd rôl ac oriau gwaith y Warden / Discussed also the role and hours of work of the Warden.*

9.0 Cae Chwarae / Playing Field

- 9.1 *Ffens wedi'i difrodi ger y Cae Chwarae - Oherwydd mater personol, mae'r gwaith wedi ei ohirio / Damaged fence by the Playing field - due to a personal mater, this work is now on hold.*

10.0 Llwybrau Cyhoeddus / Public Footpaths

- 10.1 *Derbyniwyd cais gan Simon Hunt i dorri dau lwybr troed, sef wrth ymyl y cae chwarae a rhwng Grugfa a Tan Pentref / Received a request from Simon Hunt to cut two footpaths, namely next to the playing field and between Grugfa and Tan Pentref*

11.0 Gwaith / Work SP Energy

- 11.1 **Tyn Llain** – *gwaith wedi'i gwblhau / The work has been completed*
- 11.2 **Tyddyn Waun** – *gwaith wedi'i gwblhau / The work has been completed.*

12.0 Cynghrair Seiriol / Seiriol Alliance

- 12.1 *Defib yn Lolfa Maes Gwyn - Dywedodd y Clerc ein bod yn aros am ganlyniad y cais i Achub Cymru Fyw / Defib at Maes Gwyn lounge - Clerk stated that we are awaiting the outcome of the application to Save a Life Wales.*

13.0 Awdit / Audit 2020/21 – 2021/22

- 13.1 *Esboniodd y Clerc ganlyniad y Datganiad Blynnyddol ar gyfer 2020/21 a dderbyniwyd yn ddiweddar, sef bod taliadau Adran 137 wedi'u cynnwys yn "Taliadau Eraill" / The Clerk explained the recently received outcome of the Annual Return for 2020/21, in that Section 137 payments were included within "Other Payments*
- 13.2 *Eglurodd y Clerc ymhellach ganlyniad y Datganiad Blynnyddol ar gyfer 2021/22 yn dilyn gwaith gan yr Archwilydd Mewnol. Roedd y ffurflen wedi'i chytuno a'i llofnodi'n unfrydol. Y Clerc i gyflwyno i Archwilio Cymru a hysbysebu'r ffurflen hysbysiad cyhoeddus / The Clerk further explained the outcome of the Annual Return for*

2021/22 following work by the Internal Auditor. The form was unanimously agreed and signed. Clerk to submit to Audit Wales and advertise the public notice form.

14.0 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications

- 14.1 VAR/2022/34 - Tyn Llain, Llanddona - cais o dan adran 73A i ddiwygio amod (10) o ganiatâd cynllunio rhif VAR/2021/50 er mwyn diwygio dyluniad yr annedd ar blot 1 -0 dim gwrthwynebiad / *Application under section 73A for the variation of condition (10) of planning permission reference VAR/2021/50 so as to amend the design of the dwelling on plot 1 - no objection*
- 14.2 OP/2022/3 - Craig y Brenin, Llanddona - cais amlinellol ar gyfer codi annedd - dim gwrthwynebiad / *Outline application for the erection of a dwelling - no objection*
- 14.3 HHP/2022/152 - Tyddyn Barcud, Llanddona - cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu, gwybodaeth bellach - Adroddodd Cyng. A Roberts fod y cais hwn yn cael ei alw i mewn i'r pwyllgor / *Full application for alterations and extensions, further information - Clr. A Roberts reported that this application is being called into committee.*

Penderfyniad Cynllunio / Planning Decisions

- 14.4 FPL/2020/221 - Wern y Wylan, Llanddona - caniateir yr apêl a rhoddir caniatâd cynllunio / *appeal allowed & planning permission granted*
- 14.5 HHP/2022/135 - Cae Maes Mawr - cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu - wedi ei caniatu / *full application for alteration and extension - has been granted.*

15.0 Cyfrifon / Accounts

Cytunwyd yn unfrydol i dalu'r canlynol / *It was unanimously agreed to pay the following:-*

- 15.1 Cyflog y Clerc, Ebrill-Mehefin / *Clerk Salary, April-June - £586.23*
- 15.2 HMRC - £124.20
- 15.3 Awdit Mewnol / *Internal Audit - £100.00*
- 15.4 Dwr Cymru - Mynwent y Plwyf / *Welsh Water - Community Cemetery - £18.78*
- 15.5 Cyngor Sir - Costau Etholiad 05/05/22 / *County Council - Election cost - £270.00*
- #### **Incwm / Income**
- 15.6 SPEN Wayleave - £11.85

16.0 Gohebiaeth / Correspondence

- 16.1 Tir Comin y Rhos - cais am ffens stoc a lloc / *Rhos Common land - application for a stock fence and pen.*
- 16.2 Arolwg ar ddefnyddio'r Iaith Cymraeg / *Survey on the use of the Welsh Language*
- 16.3 Iaith Cymraeg ym Môn / *Welsh Language on Anglesey*
- 16.4 Cais Cynllunio / *Planning Application Pant y Bwlch*
- 16.5 Arolwg Maes Chwarae Plant / *Childrens Play Area Inspection*
- 16.6 Menter Môn - Arolygion planhigion / *Plant Inspection*
- 16.7 Cwlwm Seiriol - llwybrau ac arwyddion / *Paths and signs*
- 16.8 Ymgynghoriad Fferm Wynt Môr Mona / *Consultation Mona Offshore Wind Farm*
- 16.9 Digwyddiad Diwrnod Dolydd / *Meadows Day Event 02/07/22*

17. UFA / AOB

- 17.1 Dywedodd y Clerc fod cwynion wedi dod i law ynghylch cyflwr y mynwentydd. Clerc i drafod y sefyllfa gyda'r contractwr / *The Clerk stated that complaints have been received regarding the condition of the cemeteries. Clerk to discuss the situation with the contractor*
- 17.2 Y Clerc i ddilyn y cais i gael "Vergemasters" wrth y ffos agored ar Gomin Rhos / *The Clerk to follow up the request of getting Vergemasters by the open ditch on Rhos Common*
- 17.3 Trafodwyd yr angen er mwyn diogelu i dorri dwy ochr i'r ffordd ganol ar draws Comin Rhos oherwydd gordyfiant. Nodwyd bod trionglau wedi'u nodi yn yr ardal hon / *Discussed the need in the interest of safety to cut both sides of the middle road*

across Rhos Common due to overgrowth. It was noted that this area is identified with triangles.

17.4 Yn dilyn trafodaethau, cytunwyd yn unfrydol i wahodd S Hunt i'n cyfarfod nesaf i drafod cynnydd prosiect Cwlwm Seiriol / *Following discussions, it was unanimously agreed to invite S Hunt to our next meeting to discuss progress of the Cwlwm Seiriol project.*

18. Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i ben 21:30. Cyfarfod nesaf ar 20/07/22 am 19:30 / There was no further business to discuss. Meeting ended 21:30pm. Next meeting to be held on 20/07/22 at 19:30pm.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad